



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Hawliau Taid/Tad-cu i ddefnyddwyr Plaladdwyr wedi dod i ben

Ebrill 2016

Mae'n rhaid i bawb sy'n defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion (PPPs) at ddibenion proffesiynol gael tystysgrif benodol.

Mae'n drosedd i unrhyw un brynu PPPs sydd wedi'u hawdurdodi ar gyfer gweithwyr proffesiynol oni bai eu bod wedi sicrhau bod gan y defnyddiwr bwriedig dystysgrif benodol.

Roedd esgusodiad "hawliau taid/tad-cu" blaenorol yn golygu y caiff unrhyw un roedd wedi'u hyfforddi'n briodol a aned cyn 31 Rhagfyr 1964 defnyddio PPPs at ddibenion proffesiynol ar ei dir ei hun neu ar dir eu cyflogwr heb orfod cael tystysgrif gymhwysedd. Diddymwyd yr amod hwn ar 26 Tachwedd 2015.

## Tystysgrif Newydd i Ddefnyddio Plaladdwyr

Mae City and Guilds wedi datblygu cymhwyster o'r enw "Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel", i ddisodli "Hawliau Taid/Tad-Cu"

Gallwch gael y cymhwyster hwn os:

- Yw eich dyddiad geni cyn 31 Rhagfyr 1964; ac
- Byddwch chi'n **defnyddio'r plaladdwyr ar eich tir eich hun neu dir eich cyflogwr yn unig.**

Mae'r cymhwyster hwn yn ystyried y ffaith bod pobl sydd wedi gweithio o'r blaen o dan "hawliau tad-cu" eisoes wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant ac y gall fod ganddynt flynyddoedd lawer o brofiad o weithio â phlaladdwyr.

I gofrestru am gymhwyster City and Guilds, cysylltwch â'ch darparwr hyfforddiant lleol neu yng Nghanolfannau Asesu NPTC leol City and Guilds

## Hyfforddiant arall

Fel arall, gallwch gael un o'r dyfarniadau Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel Lefel 2 presennol sy'n briodol i'r gwaith a'r math o offer a ddefnyddiwr. Mae'r cymhwyster ar gael trwy eich darparwr hyfforddiant lleol. Bydd y cymhwyster hwn yn caniatáu i chi **ddefnyddio plaladdwyr ar eich tir eich hun neu dir arall. Rhaid i chi** gymryd yr opsiwn hwn os yw'n fwriad gennych chi i weithio fel contractwr neu i ddefnyddio plaladdwyr i dir sydd ddim yn eiddo i chi na'ch cyflogwr.

## Sut alla i gael gwybod mwy?

I gael rhagor o fanylion am y cyrsiau a sut i gofrestru cysylltwch â'ch darparwr hyfforddiant lleol.

Mae'r Voluntary Initiative wedi rhoi cyfres o Gwestiynau a Ofynnir yn Aml ar eu gwefan: [www.voluntaryinitiative.org.uk](http://www.voluntaryinitiative.org.uk)

Mae mwy o wybodaeth ar sut yr ydych yn cael eich effeithio gan newidiadau yn rheoliad paleiddiaid ar wefan Health and Safety Executive: [www.pesticides.gov.uk](http://www.pesticides.gov.uk)

Trwy'r rhaglen Sgiliau a Mentora, gall unigolion cymwys sydd wedi cofrestru gyda Chyswllt Ffermio gael mynediad hyd at 80% cyllid am gwblhau cyrsiau hyfforddi achrededig byr mewn meysydd allweddol. Am ragor o wybodaeth ymwelwch â gwefan Cyswllt Ffermio: <http://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy>